



Cyfres y Pasg

5 Sesiwn Clwb Ieuenctid

Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Andrew Settatree

Medi 2011



Nod

Mae'r gyfres yma o sesiynau ar gyfer Clybiau Ieuenctid (11–14 oed) yn cynnwys sesiwn lansio, a phedair sesiwn yn edrych ar bedwar cymeriad o hanes y Pasg.

1. Noson lansio
2. Pilat
3. Barabbas
4. Canwriad
5. Thomas

Mae'r sesiynau'n cynnwys llawer o Gêmau amrywiol sy'n gysylltiedig â thema'r sesiwn ac yn gymorth i egluro ambell wirionedd. Mae'r dysgu'n seiliedig ar rannau o'r Beibl, a cheir amlinelliad o sgwrs i ddysgu ac ysgogi'r ieuenctid i feddwl am yr hyn maen nhw'n ei gredu. Fel rhan o'r sesiwn, nodir rhai darnau o DVD neu ganeuon sy'n clymu i mewn i'r thema.

Trefn

Wrth ddechrau clwb o'r newydd, neu ar ddechrau blwyddyn, mae'n bwysig cofrestru pob un o'r ieuenctid a gofyn i rieni lenwi ffurflen wybodaeth i'w chadw'n ofalus gan arweinydd y clwb. Mae ffurflenni proforma i gofrestru plant i'w cael yn nogfen “*Er Mwyn ein Plant*”, Atodiad 6. (Ar gael hefyd ar y wefan www.paneldiogelwch.org.uk o dan y pennawd “Dogfennau a Pholisiau”).

Paratoi

Mae'n hynod o bwysig eich bod yn gwybod yn iawn beth fyddwch yn ei wneud gyda'r ieuenctid yn ystod y clwb. Darllenwch trwy'r arweiniad a gewch, edrychwch ar y rhestr o bethau y bydd eu hangen arnoch, a darllenwch y rhannau o'r Beibl yn ofalus, fel ei fod yn glir yn eich meddwl.

Ceisiwch gyfarfod fel arweinwyr i weddïo ac i gynllunio gweithgarwch y clwb. Mae'n ffordd dda o ofalu bod y clwb yn lle diogel a hwyliog i'r ieuenctid ddod iddo ac yn gymorth i gadw eich brwdfrydedd chi, ac felly frwdfrydedd a diddordeb y bobl ifanc.

Os ydych yn cychwyn clwb ieuenctid am y tro cyntaf, mae'n hanfodol eich bod wedi paratoi gwirfoddolwyr ymlaen llaw. Mae arweiniad clir i'w gael yn nogfen “*Er mwyn ein plant*” a gynhyrchwyd gan y Panel Diogelwch Cydenwadol, ac mae hyfforddiant i'w gael trwy'r Panel.

Gellir cysylltu â'r Panel trwy ffonio 01745 817584, neu e-bostio pdpowen@aol.com a gallwch gael gwybodaeth am faterion diogelwch ar y wefan www.paneldiogelwch.org.uk

Cyngor a chefnogaeth

Os hoffech gael cyngor ynglŷn â chychwyn neu redeg clwb ieuenctid, cysylltwch â Coleg y Bala, Canolfan Plant ac Ieuenctid Eglwys Bresbyteraidd Cymru: 01678 520565 | colegybala@ebcpw.org.uk

1. Noson Lansio

Prif bwyntiau:

Mae'r sesiwn hon yn gweithio'n dda ar gyfer lansio Clwb Ieuenctid newydd neu aildechrau am dymor newydd lle efallai y bydd pobl ifanc newydd yn dod.

Prif amcanion:

Croesawu'r pobl ifanc, dod i'w hadnabod (trwy'r Gêmau torri îâ), rhoi rhagflas o'r math o bethau fydd yn digwydd yn y Clwb, fel y byddant yn dod i ddeall pam yr ydych yn rhedeg y Clwb – sef er mwyn dysgu am Iesu Grist a dod i'w adnabod yn well.

Prif ran o'r Beibl:

Marc 1:1

Adnoddau defnyddiol:

Bingo “Torri'r îâ”.

Bydd angen:

Rhif 1

- Labeli gludiog (ar gyfer enwau)

Rhif 3

- Taflenni Bingo “Torri îâ” -1 bob un, (gweler isod)
- Pinnau ysgrifennu - 1 bob un

Rhif 4

- Fferins o wahanol liwiau e.e. Skittles neu M&Ms
- Darn o bapur efo gwahanol gwestiynau arnynt (gweler Rhif 4)

Rhif 6

- Pêl fach feddal
- 4 ffon (gellir eu gwneud o bapur newydd cyfan wedi ei rowlio'n dynn ac wedi eu dal yn eu lle gyda tâp gludiog; neu gellir prynu ffyn plastig steil “hoci ia”)
- 2 Gôl (2 gadair)

Rhif 7

- Balwnau
- Cadeiriau - 1 bob un

1. Croeso a chofrestru

Mae hwn yn ddarn pwysig iawn. Cofiwch wenu a bod yn groesawgar a chyfeillgar wrth i'r pobl ifanc gyrraedd!

Byddai'n syniad da cael labeli'n barod er mwyn iddynt ysgrifennu eu henwau arnynt a'u gwisgo - help mawr i ddechrau dysgu enwau! Mae'n bwysig bod yr arweinwyr yn cymryd rhan yn y Gêmau “Torri Îâ”.

Efallai y byddai'n syniad paratoi bwyd a diodydd i'r pobl ifanc wrth iddynt eistedd i lawr ar gyfer y sgwrs i ychwanegu at yr awyrgylch croesawgar!

2. Gêm: “Splat” enwau

(5-10 munud)

Chwarae'r gêm:

Bydd angen: o leiaf 6 o pobl ifanc

Gofynnwch i'r grŵp sefyll mewn cylch.

Ewch o gwmpas y grŵp gan ofyn i bawb ddweud eu henwau.

Mae'n bwysig i bawb drio cofio cymaint o enwau â phosibl, yn enwedig y rhai sydd nesaf ond un iddynt ar y ddwy ochr.

Dewiswch un aelod i fod yn “saethwr” a gofynnwch iddo/ iddi sefyll yn y canol.

Bydd angen i bawb wneud siâp gwn â'u dwylo. Mae'r person yn y canol yn pwyntio at rywun gan weiddi ei enw.

Rhaid i'r person sydd wedi ei ddewis fynd ar ei gwrcwd yn syth. Os gwnaiff hynny, mae'n sâff. Os nad yw'n symud, mae allan a bydd yn eistedd am weddill y rownd.

Rhaid i'r ddau berson sydd y naill ochr a'r llall i'r person hwnnw droi i wynebu ei gilydd a gweiddi enwau ei gilydd.

Bydd yr un olaf i weiddi enw'r llall yn eistedd i lawr am weddill y rownd.

Bydd hyn yn parhau nes bod 2 chwaraewr yn unig yn weddill.

Rhaid i'r ddau yma gael gornest yn null y ffilm cowboi!

Byddan nhw'n sefyll gefn wrth gefn a'r "saethwr" yn cyfri i 5. Bydd y ddau chwaraewr yn cymryd cam bob tro y bydd y saethwr yn galw rhif.

Pan fydd y saethwr yn gweiddi "SPLAT" rhaid iddynt wynebu ei gilydd, anelu at ei gilydd a gweiddi enw eu gwrthwynebwr.

Y cyntaf i wneud hyn fydd yn ennill!

Pwrpas y gêm: Dysgu enwau pawb yn y grŵp.

3. Gêm: Bingo "Torri iâ"

(5-10 munud)

Chwarae'r gêm:

Rhowch un daflen a phin ysgrifennu i bob person ifanc.

Rhaid i'r bobl ifanc gael llofnod am y gwahanol ddatganiadau ar y daflen e.e. "rhywun sydd wedi bod i Sbaen", rhaid cael llofnod gan rywun sydd wedi bod i Sbaen, ac yn y blaen.

Ni chânt gasglu mwy nag un llofnod gan yr un person.

Y person ifanc cyntaf i gael un llinell gyfan (naill ai ar draws neu i lawr) sy'n ennill. Rhaid iddynt weddi "Bingo" er mwyn i'r arweinydd wybod eu bod wedi ennill.

Gallech barhau'r gêm trwy ddweud mai'r person ifanc cyntaf i gael un llinell ar draws ac un i lawr, neu'r un cyntaf i lenwi bob un sgwâr sy'n ennill. Mae hyn yn dibynnu ar niferoedd.

Mae hon yn gêm ar gyfer yr arweinyddion yn ogystal â'r plant!

Pwrpas y gêm: Torri'r iâ.

4. Gêm: Loteri Fferins

(5-10 munud)

Chwarae'r gêm:

Pawb i eistedd o amgylch y bwrdd.

Yn eu tro mae'r bobl ifanc i gymryd un o'r fferins o liw o'u dewis.

Yn dibynnu pa liw y maent wedi ei ddewis, mae cwestiwn yn cyd-fynd â'r lliw, er enghraifft:

Coch: Beth oedd y stori ddiwethaf o'r Beibl i chi ei darllen neu ei chlywed?

Gwyrdd: Beth ydych chi eisiau ei wneud pan fyddwch yn hŷn?

Oren: Canwch diwn eich hoff raglen deledu neu gân bop.º

Glas: Beth yw'ch hoff bwnc yn yr ysgol a pham?

Melyn: Faint o bobl sydd yn eich teulu?

Brown: Beth yw'ch hoff fwyd?

Parhewch â'r gêm naill ai nes bod pawb wedi ateb pob cwestiwn neu bod y fferins wedi eu bwyta i gyd!

Pwrpas y gêm: Torri'r ia

5. Sgwrs a chyflwyniad

(10 munud)

Diolchwch i bawb am ddod gan eu croesawu.

Darllenwch: Marc 1:1

Yr adnod yma yw'r un cyntaf yn Efengyl Marc ac mae hi'n egluro pam y cafodd yr Efengyl ei hysgrifennu.

Dyma ystyr rhai o'r geiriau o'r adnod:

EFENGYL:

C1) Beth mae "Efengyl" yn ei olygu?

Ystyr 'Efengyl' ydi "newyddion da". Rydym yn cyfarfod fan hyn er mwyn clywed newyddion da.

C2) Ond beth yw'r newyddion da?

IESU GRIST:

Iesu Grist yw'r newyddion da. Daeth i'r byd i ddelio efo'r pethau drwg yr ydym wedi eu gwneud, ac yn eu gwneud. Rydym yn haeddu cael ein gwahanu oddi wrth Dduw am byth oherwydd y pethau yma. Ond fe ddeliodd Iesu Grist â'r rhain trwy farw ar y Groes a chymryd y gosb yr oedden ni'n ei haeddu.

O ganlyniad i'w aberth, (sef bod Iesu wedi marw yn ein lle), mae gennym gyfle i adnabod Duw trwy ddweud sori am y pethau drwg yr ydym wedi eu gwneud.

Y rheswm pam y cawsom ni ein creu oedd i fwynhau

perthynas gyda Duw am byth!

Yr ydym yma fel arweinyddion oherwydd yr hyn y mae Iesu Grist wedi ei wneud yn ein bywydau. Ei adnabod ef yw'r peth gorau sydd wedi digwydd i ni.

Yr ydym wedi dechrau'r clwb yma er mwyn rhoi cyfle i chi ddod i adnabod a dilyn Iesu Grist.

C3) Ond pwy yw Iesu Grist?

MAB DUW:

Nid yw hyn yn golygu bod Duw wedi cael Mab yn llythrennol!

Mae'n golygu bod Iesu'n rhannu'r un natur â Duw - sef mai Duw a ddaeth i lawr i fod yn ddyd yw Iesu.

Felly mae yn Dduw a dyn ar yr un pryd.

Mae'n dangos ei fod yn berson arbennig ac unigryw.

Mae Iesu wastad wedi bodoli; roedd yno pan grëwyd y byd. Trwyddo ef cafodd popeth ei greu!

Mae'r Beibl cyfan am Iesu Grist, nid y Testament Newydd yn unig. Mae'r Hen Destament yn edrych ymlaen at ddyfodiad Iesu Grist!

Fel y dywedais o'r blaen, adnabod Duw a mwynhau perthynas gyda Duw trwy Iesu Grist yw'r rheswm pam y cawsom ni ein creu. Yr ydym i gyd yma oherwydd Iesu Grist.

Y cwestiwn i chi i gyd ar ddechrau'r clwb/ tymor newydd yw:

C4) Ydych chi'n fodlon gwrandao ar yr hyn sydd gan Iesu i'w ddweud wrthyfch?

6. Gêm: Hoci dan dô

(5-10 munud)

Chwarae'r gêm:

Gofynnwch i'r timau eistedd ar bob ochr i'r ardal chwarae.

Rhowch rifau i chwaraewyr bob tîm. (Bydd angen rhifau yn cyfateb ym mhob tîm).

Gosodwch y bêl a'r ffyn yn y canol.

Mae'r chwaraewyr yn eistedd hyd nes y gelwir eu rhif. Pan elwir eu rhif, byddant yn rhedeg i nôl un o'r ffyn ac yn ceisio cael y bêl i mewn i'r gôl.

Rhaid cadw'r ffyn yn isel.

Gallwch weiddi rhifau newydd ar unrhyw adeg ac

mae'n rhaid i'r chwaraewyr newid yn syth gan adael y bêl a'r ffon ble maen nhw.

Gallwch chwarae gêm gydag amser penodol iddi, gyda'r tîm sydd â'r nifer fwyaf o goliau yn ennill, neu gêm gyda'r tîm cyntaf i ennill tair gôl yn fuddugol.

Pwrpas y gêm: Cael hwyl!

7. Gêm: Brwydr y balwnau

(10 munud)

Chwarae'r gêm: *Bydd angen: Balwnau, tua un i bob plentyn a Chadeiriau - un bob un.*

Un ai rhowch y timau i eistedd ar gadeiriau, neu â'u coesau'n syth o'u blaenau ar y llawr yn wynebu ei gilydd.

Os ydyn nhw'n eistedd ar y llawr, rhaid i'w traed gyffwrdd, os ar gadeiriau, dylent fod tua 2m ar wahân.

Rhaid i'w penolau barhau i gyffwrdd â'r cadeiriau/ llawr drwy'r amser.

Rhowch y balwnau i gyd yn y canol, rhwng y ddau dîm ar hyd y rhes. Pan rowch chi arwydd, cânt geisio taflu hynny fedrant o falwnau dros bennau'r tîm arall. Cânt geisio rhwystro'r balwnau rhag mynd dros eu pennau, ond rhaid parhau i eistedd.

Enillir pwynt pan fo balwn yn glanio ar lawr y tu ôl i'r tîm arall.

Caniateir unrhyw nifer o gyffyrddiadau cyn i'r falwn gael ei tharo dros bennau'r tîm arall.

Gellir ychwanegu mwy o falwnau er mwyn gwneud y gêm yn fwy diddorol.

Pwrpas y gêm: Cael hwyl!

8. Crynhoad

Atgoffwch y bobl ifanc o brif neges y noson cyn rhoi gwybodaeth iddynt ynglŷn â'r cyfarfod nesaf. Cloi'r cyfarfod gyda gweddi.

Bingo pobl

Chwiliwch am wahanol bobl sydd ag un o'r ffeithiau sydd yn y tabl yn wir amdany'n nhw a gofynnwch iddyn nhw sgwennu eu llofnod o dan y ffaith.

Y person cyntaf i gael un llinell gyfan (naill ai ar draws neu i lawr) fydd yn ennill.

Gwaeddwch "Bingo!" er mwyn i'r arweinydd wybod eich bod wedi ennill.

Wedi bod yn Awstralia	Ag alergedd	Yn gwisgo gwysgiau cyffwrdd ("contact lenses")	Yn gwisgo esgidiau coch
Â phen-blwydd ym mis Gorffennaf	Ddim wedi fy ngeni yng Nghymru	Yn berchen cath	Yn llaw chwith
Wedi lliwio fy ngwallt	Yn cefnogi Lerpwl	Yn casáu Marmite	Â brawd neu chwaer iau
Yn hoffi'r ffilm 'Avatar'	Yn hoffi Mathemateg yn yr ysgol	Yn siarad tair iaith yn rhugl	Yn adnabod Iesu

2. Pilat: Iesu'r un dieuog

Prif bwyntiau dysgu:

- Roedd Iesu'n hollol ddieuog a pherffaith, ond wnaeth o ddim protestio wrth gael ei gyhuddo gerbron Pilat.
- Er mwyn iddo wneud gwaith Duw, wnaeth Iesu ddim o'i amddiffyn ei hun er ei fod yn ddieuog.
- Er mwyn plesio'r dorf, fe wnaeth Pilat wrthod helpu Iesu na gwneud safiad drosto, er ei fod yn gwybod fod Iesu'n ddieuog.
- Roedd plesio'r dorf yn bwysicach i Pilat na gwneud safiad dros Iesu Grist, y dyn perffaith.

Prif rannau o'r Beibl:

Marc 15:1-15; Eiseia 53:7

Cymhwysiad:

A ydyn ni'n debyg i Pilat – yn fwy parod i blesio pobl eraill nag i gydnabod Iesu Grist (y dyn perffaith a gymerodd ein beiau) ac i wneud safiad drosto?

Bydd angen:

Rhif 1

- Cadeiriau mewn cylch yn wynebu tuag i mewn
- Darnau bach o bapur (gweler 1 isod)
- Pin ysgrifennu

Rhif 3

- Potiau playdough (neu'r gêm Rapidough sydd ar werth mewn siopau)
- Papur a phin ysgrifennu

Rhif 5

- Beibl

Rhif 6

- Cwestiynau cyffredinol cwis aml ddewis

Rhif 9

- Cân: “Wrth Edrych, Iesu, ar dy Groes” (When I Survey the Wondrous Cross) neu Youtube.com “When I survey the Wondrous Cross” Kathryn Scott

1. Gêm: Winc Farwol

(10 munud)

Chwarae'r gêm:

Pawb i eistedd ar y cadeiriau.

Ysgrifennwch “ditectif” ar un darn o bapur, “llofrudd” ar un arall, a “cyhoedd” ar weddill y darnau. Yna, plygwch y darnau papur.

Rhowch y darnau mewn bag a'u cymysgu'n dda.

Rhowch y bag i bob un o'r bobl ifanc yn eu tro, er mwyn iddynt gymryd darn papur yr un. Bydd un yn 'dditectif', un yn 'llofrudd' a'r gweddill yn aelodau o'r 'cyhoedd'.

Pawb i eistedd ar y cylch o gadeiriau.

Rhaid i'r 'llofrudd' geisio lladd y chwaraewyr eraill. Bydd yn gwneud hyn trwy wincio arnynt, ond rhaid gwneud hynny heb i'r 'ditectif' sylwi.

Pan fydd y 'llofrudd' yn wincio ar un o'r 'cyhoedd', rhaid i hwnnw/honno smalio marw. Mae pawb sy'n 'marw' allan o'r gêm.

Mae'n rhaid i'r 'ditectif' geisio darganfod pwy yw'r 'llofrudd' cyn i'r 'llofrudd' ladd y 'ditectif'.

Mae gan y 'ditectif' dri chyfle i gyhuddo cyn y bydd y 'llofrudd' yn ei ddatgelu ei hun.

Pwrpas y gêm: Dangos bod rhaid penderfynu pwy sy'n euog a phwy sy'n ddieuog. Roedd hi'n ddyletswydd ar Pilat i benderfynu a oedd Iesu Grist yn euog ai peidio.

2. Cefndir Pilat (5 munud)

Cwestiwn 1: A oedd hi'n hawdd penderfynu pwy oedd yn euog?

- Heddiw, byddwn yn dysgu am Pilat. Dyma'r dyn oedd yn cael penderfynu a oedd Iesu Grist yn euog ai peidio.

- Cafodd Pilat ei benodi'n Llywodraethwr Jwdea tua 26 OC. Roedd ganddo brofiad o fod yn y fyddin yn ogystal â phrofiad o reoli pobl.

- Cafodd Pilat enw drwg am gynhyrfu'r Iddewon yr oedd yn eu rheoli trwy wneud gwahanol bethau i'w tramgwyddo. Er enghraifft, gadawodd

i'r milwyr Rhufeinig ddod â baneri â llun yr Ymerawdwr arnynt i Jerwsalem – roedd y bobl yn flin iawn bod y fath luniau wedi halogi eu dinas sanctaidd. Fe achosodd hyn derfysg a bu'n rhaid i Pilat ddefnyddio grym i dawelu'r bobl.

- Felly, ar y naill law, roedd Pilat yn tueddu i fod yn rheolwr gwan, ac ar y llaw arall, roedd yn rhy dreisgar. Cyn y rhan hon o'r stori, roedd mewn helbul efo'r Ymerawdwr oherwydd y ffordd yr oedd wedi delio â'r terfysg.

3. Gêm: Toes cyflym

(15 munud)

Chwarae'r gêm:

Mae'r gêm yma'n debyg i Pictionary, ond yn defnyddio toes (playdough) yn lle darlunio.

Gosodwch y bobl ifanc mewn timau.

Mae'r arweinydd yn ysgrifennu rhestr o eiriau/ pethau ar ddarn o bapur.

Mae pob tîm yn dewis rhywun i fynd at yr arweinydd yn ei dro i weld un gair.

Yna, mae'r person hwnnw'n mynd yn ôl at ei dîm, ac yn ceisio cyfleu'r gair a welodd trwy wneud model â'r toes (playdough).

Y tîm cyntaf i ddyfalu beth yw'r gair/ peth sy'n ennill y rownd.

Ar ôl i'r gêm orffen, mae'r arweinydd yn cyhuddo'r tîm buddugol o dwyllo ac yn rhoi'r wobr i'r tîm a ddaeth yn ail.

Pwrpas y gêm: Cyflwyno'r thema o gael bai ar gam.

Yna gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r tîm a gyhuddwyd o dwyllo:

Cwestiwn 2: Sut deimlad oedd cael bai ar gam?

Cwestiwn 3: Beth wnewch chi'n naturiol pan gewch chi fai ar gam?

4. Profiad rhywun a gafodd fai ar gam:

Gall yr arweinydd naill ai rannu esiampl bersonol neu stori am rywun arall. Mae hyn yn arwain yn dda at y darlleniad.

5. Sgwrs/trafodaeth: Rhan 1

(10 munud)

Darllen: Marc 14: 53-65 a 15:1-5

Cwestiwn 4: Beth oedd ymateb Iesu Grist i'r cyhuddiadau yn ei erbyn?

Cwestiwn 5: Pam wnaeth Iesu ymateb fel hynny?

- Er bod Iesu Grist yn ddiuog, wnaeth o ddim mynd ati i'w amddiffyn ei hun rhag y camgyhuddiadau oedd wedi eu gwneud yn ei erbyn.

- Pam? Am mai cynllun a phwrpas Duw oedd i Iesu farw ar y groes. Dyma oedd cynllun Duw i achub y byd, ac roedd Duw wedi egluro'r cynllun hwn ers dechrau'r byd (Genesis 3:14-15).

- Y mae yna broffwydoliaeth am hyn yn Esea 53:7 - "Fe'i gorthrymwyd a'i ddarostwng, ond nid agorai ei enau; arweiniwyd ef fel oen i'r lladdfa, ac fel y bydd dafad yn ddistaw yn llaw'r cneifiwr, felly nid agorai ei enau."

- Gwyddai Iesu'n iawn nad oedd ffordd arall i'n hachub ni. Roedd wedi rhagfynegi ei farwolaeth i'w ddisgyblion sawl gwaith (Marc 8:31; 9:30-32, 10:32-34).

Mae hyn yn pwysleisio'r ffaith mai cynllun Duw oedd i Iesu ddioddef a marw yn ddiuog.

6. Cwis: Dilyn y dorf!

(10 munud)

Cynnal y cwis:

Gwirfoddolwr i ddod i eistedd yn y “gadair boeth”. Wrth iddo/iddi geisio ateb cwestiwn, mae gweddill yr ieuenctid yn gweiddi gwahanol atebion er mwyn ei (d)drysu.

Mae rhaid iddo/iddi geisio dewis yr ateb cywir, ac osgoi cael ei (d)drysu gan y dorf.

Os bydd yn dewis yr ateb cywir, caiff aros i ateb y cwestiwn nesaf, ond os nad yw'n ateb yn gywir, caiff rhywun arall gyfle i ateb.

Cwestiwn 6: A oedd hi'n haws neu anoddach i ateb y cwestiwnau gyda phawb yn gweiddi gwahanol atebion arnat?

7. Sgwrs/Trafodaeth: Rhan 2

(10 munud)

Cwestiwn 7: Pam wnaeth Pilat ddedfrydu Iesu i farwolaeth er ei fod yn gwybod fod Iesu'n hollol ddieuog?

Cwestiwn 8: A ydy pobl eraill wedi gallu dylanwadu arnoch i wneud rhywbeth yr ydych chi'n gwybod sy'n anghywir?

- Gwyddai Pilat yn iawn bod Iesu'n ddieuog – gan ei fod wedi datgan hyn dair gwaith. (Yn nyddiau Iesu, petai rhywbeth yn cael ei ddweud dair gwaith roedd yn ffordd o ddangos ei fod yn sicr yn wir.)
- Ond yn y pen draw, y mae'r dorf yn dylanwadu arno ef, ac mae plesio'r dorf yn bwysicach iddo na gwneud safiad dros yr Iesu.
- Er mai cynllun Duw oedd marwolaeth Iesu, mae Pilat yn dal i fod yn gyfrifol am ei weithredoedd ei hun am ei fod wedi traddodi dyn dieuog!

8. Her

Gan fod Iesu Grist, y dyn perffaith, wedi gadael iddo ei hun gael ei gam-drin, a'i gyhuddo a'i ddedfrydu i farw er mwyn ein hachub ni, beth yw'ch ymateb chi?

A ydych chi'n debyg i Pilat? Efallai eich bod yn gwybod beth wnaeth Iesu Grist drosoch chi, a hyd yn oed yn ei gredu, ond bod plesio pobl, yn y pen draw, yn bwysicach i chi na dilyn Iesu ac aros yn ffyddlon iddo.

9. Myfyrdod ac Ymateb

(5 munud)

- Gwrandewch ar gân “Wrth Edrych, Iesu, ar dy Groes” (When I Survey the Wondrous Cross), naill ai efo cyflwyniad o luniau perthnasol ar PowerPoint neu efo clip ffilm o'r Croeshoeliad.
- Y mae'n werth chwilio am glip ar Youtube hefyd (gweler y rhestr uchod)!
- Rhowch ddarnau o bapur i'r bobl ifanc ysgrifennu gweddi i ddiolch i Iesu am adael iddo ei hun gael bai ar gam neu i ddweud sori am ei adael i lawr o flaen pobl eraill.

Cloi'r cyfarfod gyda gweddi.

3. Barabbas: Bu farw Iesu yn ein lle

Prif bwyntiau:

Roedd Barabbas yn haeddu cosb am yr hyn yr oedd wedi ei wneud – llofruddiaeth a gwrthryfel yn erbyn y Rhufeiniaid.

Doedd Iesu ddim yn haeddu cosb. Roedd wedi byw bywyd perffaith; ond bu farw yn lle Barabbas.

Nid camgymeriad oedd marwolaeth Iesu, ond rhan o gynllun Duw er mwyn i ni gael ein gollwng yn rhydd.

Prif rannau o'r Beibl:

Luc 23: 13-25, Eiseia 53: 4-8.

Cymhwysiad: Yr ydym ninnau'n haeddu cael ein cosbi am wrthryfela yn erbyn Duw. Bu farw Iesu yn ein lle ninnau hefyd.

Nid oes cofnod o ymateb Barabbas i aberth Iesu – a oedd wedi newid ei fywyd o ganlyniad i'r ail gyfle a roddwyd iddo gan Iesu?

Ydym ni wir yn sylweddoli arwyddocâd yr hyn a wnaeth Iesu drosom ar y Groes? Beth yw ein hymateb i'r ail gyfle y mae Iesu'n ei gynnig i ni?

Ydi aberth Iesu wedi newid ein bywydau ni?

Bydd angen:

Rhif 1:

- Papur gwahanol
- Papur newydd
- Pinnau ffelt
- Pritt Stick
- Pinnau ysgrifennu
- Pensiliau
- Lluniau o'r bobl ifanc

Rhif 2:

- Papur newydd
- Tâp gludiog
- Gwellt yfed
- Balwnau
- Llinyn

Rhif 4:

- Darnau o bapur a phensil

Rhif 7:

- DVD Shrek 2

1. Gêm: Posteri “Yn Eisiau” (15 munud)

Chwarae'r gêm:

Mae'r bobl ifanc yn creu posterï “Yn Eisiau” ohonyn nhw eu hunain, fel eu bod yn edrych fel troseddwr (fel y math o bosterï a welwch chi mewn ffilmiau cowboi).

Caniatewch oddeutu 10 munud iddynt i wneud y posterï efo'r offer sydd ar gael.

Yna rhowch rhyw 5 munud i bawb egluro ei gymeriad - yr un efo'r poster gorau sy'n ennill.

Pwrpas y gêm: Cyflwyno cymeriad Barabbas.

2. Gêm: Gwisgo i fyny fel troseddwr (10 munud)

Chwarae'r gêm:

Gosodwch y bobl ifanc mewn timau.

Rhowch y deunydd i bob tîm.

Mae'n rhaid iddynt ddewis un aelod o'r tîm i'w wisgo.

Rhowch 10 munud i greu'r troseddwr mwyaf dychrynlyd.

Mae'n rhaid iddynt ddewis enw priodol iddo/iddi.

Mae'n rhaid i'r troseddwr gael chwerthinïad i godi ofn!

Ymhen y 10 munud, bydd yna 5 munud i bawb gyflwyno ei droseddwr, gan gynnwys y wisg, yr enw a rhoi cyfle iddo/iddi chwerthin.

Y troseddwr gorau sy'n ennill.

Pwrpas y gêm: Cyflwyno cymeriad Barabbas

3. Cefndir Barabbas:

Darllen: Luc 23:13-19

- Roedd Barabbas yn droseddwr adnabyddus yn Jerwsalem.
- Roedd wedi dwyn, codi terfysg ac wedi llofruddio.
- Felly, roedd yn derfysgwr, tebyg i Osama Bin Laden.
- Mae'n bosibl ei fod yn rhan o grŵp oedd yn ymladd yn erbyn y Rhufeiniaid, ac yn ymosod arny'n nhw ac unrhyw un arall o'u cydwladwyr oedd wedi elwa o'r teyrnasiad Rhufeinig.
- Roedd y Rhufeiniaid wedi ei ddal, ac wrth i Iesu gael ei gyhuddo, roedd Barabbas yn y carchar. (Efallai y gallai eich troseddwr buddugol gynrychioli Barabbas).
- Yn ystod y Pasg roedd Pilat yn arfer rhyddhau rhywun o garchar.

C1: Beth mae rhywun fel hyn yn ei haeddu?

Roedd Barabbas yn haeddu marwolaeth am yr hyn yr oedd wedi ei wneud. Mae'n debyg ei fod yn mynd i gael ei groeshoelio.

Dyna fyddai cyfiawnder.

4. Gêm: Maffia

(10-15 munud)

Chwarae'r gêm:

Bydd angen: 8 neu fwy o bobl ifanc, Rhywun i adrodd y stori.

Ysgrifennwch ...

- “Maffia” ar 2-3 darn o bapur (dibynnu ar niferoedd)
- “Siryf” ar ddau ohonynt (neu un os ydi'r niferoedd yn llai)
- “Nyrs” ar ddarn arall o bapur.
- “Pentrefwyr” ar weddill y darnau

Mae'r bobl ifanc i eistedd mewn cylch.

Pawb i gymryd un darn o bapur ac edrych arno, heb adael i neb arall ei weld. Byddant naill ai'n “Maffia”, “Siryf”, “Nyrs” neu “Pentrefwr”.

Mae'r llefarydd yn dweud wrth bawb am gau ei lygaid (cysgu).

Mae'n dweud wrth y Maffia am agor eu llygaid (deffro) a phwyntio at rywun i'w 'lofruddio'. Mae'n rhaid gwneud hyn heb wneud sŵn. Yna maen nhw'n mynd yn ôl i gysgu.

Mae'r Nyrs yn cael cyfarwyddyd i ddeffro, yn ceisio penderfynu pa un sydd wedi cael ei ladd, ac yn pwyntio ati/ ato. Mae'r llefarydd yn rhoi arwydd i ddangos a yw'n gywir ai peidio.

Os yw'n gywir, mae'r person yn cael ei achub. Wedyn mae'r nyrs yn mynd yn ôl i gysgu.

Yna, mae'r ddau siryf yn deffro ac yn ceisio penderfynu pwy yw'r Maffia. Mae'r llefarydd yn rhoi arwydd i ddangos a ydyn nhw'n gywir ai peidio.

Yna, maen nhw'n mynd yn ôl i gysgu.

Wedyn mae pawb yn deffro ac mae'r llefarydd yn egluro:

- bod y Maffia wedi lladd rhywun yn ystod y nos (enwi'r person).
- bod y Nyrs wedi trio ei achub (yn llwyddiannus/aflwyddiannus)
- bod y ddau siryf wedi trio darganfod pwy yw'r Maffia.

Yna, mae'n rhaid i'r bobl ifanc bleidleisio dros 2 neu 3 o bobl y maent yn meddwl sy'n euog.

Nid yw'r ddau Siryf yn cael dweud pwy yw'r Maffia (os ydynt yn gwybod), ond os nad ydynt yn gwybod cânt wneud sŵn mawr wrth gyhuddo'r bobl y maent yn tybio yw'r Maffia.

Mae pwy bynnag sy'n cael y mwyaf o bleidleisiau yn mynd i'r carchar; ac mae'r llefarydd yn datgelu a yw'r person hwnnw yn y Maffia ai peidio.

Mae'r gêm yn dilyn y patrwm hwn, naill ai nes i bob un o'r Maffia gael eu dal, neu nes i'r Maffia lwyddo i ladd pawb.

Mwyaf yn y byd y bydd y llefarydd yn adrodd stori dda, mwyaf yn y byd y bydd y bobl ifanc yn mwynhau'r gêm!

Pwrpas y gêm: Cosbwyd Iesu yn lle Barabbas a ninnau.

C2: Sut deimlad oedd cael rhywun arall i gymryd dy le?

5. Darllen: Luc 23:19-25.

C3: Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Iesu a Barabbas?

- Roedd Iesu'n hollol ddieuog - wedi byw bywyd perffaith. Doedd o ddim yn haeddu cosb.
- Roedd Barabbas yn hollol euog ac yn sicr yn haeddu cosb.

C4: Pa un fuasech chi wedi ei ddewis, a pham?

C5: Beth feddylwch chi am y penderfyniad a wnaed gan Pilat?

6. Darllen: Eseia 53: 3-8

C6: Am bwy mae'r rhan yma o'r Beibl yn sôn?

- Ysgrifennwyd y darn yma ganrifoedd cyn i Iesu gael ei eni - mae'n disgrifio sut bydd y person y mae Duw yn ei anfon i achub y byd yn dioddef.
- Mae Eseia'n sôn am ddyfodiad a dioddefaint Iesu Grist.
- Mae'n sôn am y ffaith ein bod ni i gyd wedi cefnu ar Dduw - fel defaid yn crwydro - ond bod Iesu wedi cymryd ein cosb er mwyn ein hachub ni.
- Mae'n dangos mai cynllun a phwrpas Duw i'n hachub oedd marwolaeth Iesu, ac nid rhyw ddamwain.

7. Clip ffilm: Shrek 2

Eglurwch i'r bobl ifanc cyn gwyllo'r clip bod yna gysylltiad rhyngddo a'r darlleniad.

Gofynnwch iddynt drïo darganfod beth yw'r cysylltiad.

- Fel y gwnaeth y brenin aberthu ei hun dros Ffiona a Shrek, felly y gwnaeth Iesu dros Barabbas a throsom ninnau.

- Nid ewyllys y dorf yn y pen draw oedd i Iesu gymryd lle Barabbas, ond cynllun Duw.

- Rydym ni oll fel Barabbas - yn euog dros ben ac yn haeddu marwolaeth.

- Felly, roedd rhaid i Iesu farw er mwyn cymryd y gosb yna er mwyn i ni gael bod yn rhydd.

8. Her

- Nid yw'r Beibl yn dweud a oedd Barabbas yn ymwybodol o aberth Iesu yn ei le, na sut y gwnaeth Barabbas ymateb i'r aberth, na pa wahaniaeth a wnaed i'w fywyd.

- Mae yna lawer o bobl heddiw efallai sy'n debyg iddo - efallai nad ydyn nhw'n gwybod am aberth Iesu drostynt, neu nad ydynt yn deall arwyddocâd ei aberth (sef bod Iesu'n cynnig ail gyfle iddynt), neu nad yw wedi effeithio ar eu bywydau.

- Y mae aberth Iesu yn mynnu ymateb oddi wrthym ni - nid oes modd "eistedd ar y ffens".

- Naill ai yr ydym ni'n derbyn yr ail gyfle y mae Iesu'n ei gynnig i ni trwy ddweud 'sori' am wrthryfela yn ei erbyn, neu yr ydym ni'n dewis gwrthod.

- Mae canlyniadau gwrthod yn golygu cael ein gwahanu oddi wrth Dduw am byth.

- Mae'n debyg bod y rhan fwyaf ohonoch yn gwybod am yr hyn y mae Iesu wedi ei wneud drosoch

Y cwestiynau i chi yw:

Sut ydych chi'n ymateb? A pha wahaniaeth y mae'r ffaith honno wedi ei wneud yn eich bywyd?

- Mae yna gost i ddilyn Iesu, ac mae'n rhaid cyfrif y gost cyn penderfynu ei ddilyn.

- Mae dilyn Iesu'n golygu dioddef, efallai colli ffrindiau, a chael pobl yn dweud pethau cas amdanom. Mewn rhai gwledydd, mae hyd yn oed yn golygu marw.

- Ond mae hefyd yn bwysig ystyried cymaint mwy oedd y gost i Iesu gael ei wrthod a'i gosbi ar y groes gan Dduw yn ein lle ni.
- Os ydych chi wedi derbyn Iesu, mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi eich bywyd iddo o'r newydd bob dydd, gan ystyried faint y mae wedi ei wneud drosom (Rhufeiniaid 12:1-2).
- Mae angen i ni fyw bywyd sy'n adlewyrchu ffaith bod Iesu wedi rhoi ail gyfle i ni, er mwyn dangos pa mor ddiolchgar ydym ni am yr hyn a wnaeth drosom.

9. Myfyrdod

Chwaraewch y trac "Took my place" gan Third Day o'r Albwm "Time". Efallai y gallech gael lluniau i gyd-fynd â'r gân.

Efallai bod clip ar "Youtube" sy'n cyd-fynd â'r gân hon.

Rhowch gyfle i'r ieuencid ymateb trwy weddio - naill ai trwy ysgrifennu eu hymatebion ar ddarn o bapur, neu siarad ag arweinydd neu trwy weddio'n dawel ar eu pen eu hunain.

Cloi'r cyfarfod gyda gweddi.

4. Y Canwriad: Mae Iesu'n Fab Duw

Prif Bwyntiau:

Ymhlith y bobl oedd wrth y Groes pan oedd Iesu'n marw, rhai ohonynt yn ei sarhau, y mae'r canwriad yn sefyll allan oherwydd ei ymateb cywir i Iesu, sef datgan mai Mab Duw oedd ef.

Daeth i'r casgliad hwn ar sail y ffordd yr oedd Iesu Grist wedi marw. Sylwodd fod Iesu yn maddau i'w elynion (Luc 23:34); a bod tywyllwch drwy'r wlad i gyd (Marc 15:33); a sylwodd ar eiriau Iesu (Marc 15:34).

Efallai nad oedd y canwriad yn deall yn iawn pwy oedd Iesu ond fe welodd ddigon i ddod i'r casgliad nad dyn cyffredin oedd hwn ond Mab Duw ei hun.

Prif rannau o'r Beibl:

Marc 15: 33-39; Luc 23: 32-43.

Cymhwysiad: Mae'n rhaid i ninnau hefyd benderfynu pwy yw Iesu ar sail tystiolaeth ei fywyd yn yr efengylau.

Wrth ystyried ei fywyd, mae yna dri phosibiliad am honiadau Iesu amdano ef ei hun sef, yng ngeiriau C.S. Lewis, "Liar, Lunatic or Lord".

Bydd angen:

Rhif 1:

- Papur newydd
- Pinnau ysgrifennu
- Tâp gludiog

Rhif 3:

- Cyflwyniad PowerPoint "Pwy ydw i" (oddi ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru dan Adnoddau'r Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid)
- Darnau o bapur a phinnau ysgrifennu

Rhif 4:

- DVD "The Lion, The Witch and the Wardrobe"

Rhif 5:

- Darnau o bapur a phinnau ysgrifennu

Rhif 8:

- Lluniau oddi ar y we o Sung-yung Moon,

Marshall Applewhite, Matayoshi Jesus a Thomas Harrison Provenza (Ewch i Google Images).

Rhif 9:

- DVD "Gŵr y Gwyrthiau"

1. Gweithgaredd – gwisgo fel Canwriad

(15 munud).

Gan fod y gêm yn rhan o'r sesiwn ddiwethaf, bydd rhaid i chi benderfynu a yw'n syniad da ei chwarae eto (gall ddibynnu ar faint oedd yr ieuenctid wedi ei mwynhau.) Rwyf fi fy hun o'r farn bod y gweithgaredd yn ffordd dda a hwyliog i gyflwyno'r Canwriad wrth y groes.

Chwarae'r gêm:

Pob tîm i ddewis un aelod i fod yn Ganwriad. Mae gan bob tîm tua 10 munud i greu gwisg Canwriad Rhufeinig gyda'r offer sydd ar gael.

Efallai y byddai'n syniad da cael llun o ganwriad er mwyn iddynt wybod beth i anelu ato.

Ar ôl 10 munud, mae'n rhaid i bob tîm gyflwyno'i 'ganwriad', a rhaid i hwnnw geisio ymddwyn mewn ffordd filwrol. Bydd y timau'n cael eu beirniadu ar sail ansawdd y wisg a pherfformiad y 'canwriad'.

Pwrpas y gêm: Cyflwyno'r canwriad wrth y groes.

2. Cefndir am y Canwriad

- Swyddogion yn y Fyddin Rufeinig oedd yn gyfrifol am oddeutu 100 o ddynion.
- Fel arfer, roeddent wedi cael eu dyrchafu o fod yn filwyr arferol, ac wedi cael eu dewis am eu bod yn ddewr ac yn ddibynadwy.
- Mae yna nifer o ganwriaid yn y Testament Newydd sy'n ymateb yn gadarnhaol i Iesu Grist (Mathew 8:5-13; Actau 10 ac yn y blaen).
- Heddiw, byddwn yn edrych ar y canwriad oedd wrth y groes ac yn ystyried beth y medrwn ei ddysgu am ei ymateb i Iesu.

Darllen: Marc 15:33-39

Cwestiwn 1: Beth oedd ymateb y canwriad i Iesu ar y groes a pham?

- Daeth y canwriad i'r casgliad mai Mab Duw yw Iesu wedi iddo weld y ffordd y bu Iesu farw ac wedi iddo glywed ei eiriau.

Byddai'r canwriad wedi gweld Iesu'n maddau i'w elynion (Luc 23:34).

- Roedd Iesu wedi dysgu pobl eraill i faddau i'w gelynyion, a rŵan mae'n gwneud yr union beth yna ei hun.
- Byddai'r canwriad wedi gweld yr ymateb hwn i'r sarhad gan y gwahanol bobl (y prif offeiriaid, y dorf, y milwyr a'r lladron); a byddai hynny wedi gwneud argraff sylweddol ar y canwriad, oedd wedi gweld llawer o bobl yn cael eu croeshoelio.

Tywyllwch trwy'r wlad

- Mae'n bwysig pwysleisio nad diffyg ar yr haul oedd hwn, gan na fyddai peth felly'n arfer para am ddim mwy nag ychydig funudau.
- Fe barodd y tywyllwch yma am dair awr.
- Hefyd nid yw'n mynd yn hollol dywyll pan geir diffyg ar yr haul, ond mae'n glir o'r testun bod hynny wedi digwydd yma.
- Felly, mae'n amlwg mai digwyddiad goruwchnaturiol oedd hwn, fel petai byd natur ei hun yn ymateb i farwolaeth ei greawdwr, a Duw yn dangos ei ddiacter trwy hynny.
- Byddai hyn wedi dangos i'r canwriad bod yna rhywbeth unigryw am y dyn yma.

Geiriau Iesu

- Cyn iddo farw mae Iesu'n gweiddi'n uchel, "Eloi, Eloi, lama sabachthani?", sy'n golygu "Fy Nuw, Fy Nuw, pam yr wyt wedi troi dy gefn arna i?"
- Byddai'r canwriad wedi gweld bod gan Iesu berthynas arbennig â Duw, a bod colli hynny'n waeth o lawer na hyd yn oed y boen gorfforol a ddiodefodd ef.

3. Cwis: Pwy ydw i?

(5-10 munud)

Bydd angen: Cyflwyniad PowerPoint "Pwy ydw i".

Gosodwch y bobl ifanc mewn timau.

Mae tua 10 sleid o bobl enwog, gyda chliwiau, ac mae'n rhaid i'r timau ddyfalu pwy ydyn nhw.

Fe gânt tua munud yr un, ond fe gewch chi ail ddangos y lluniau iddynt.

Y tîm â'r sgôr uchaf sy'n ennill.

Pwrpas y gêm: Mae'n bwysig i ni edrych ar y dystiolaeth cyn penderfynu pwy yw Iesu.

4. Clip Ffilm - "The Lion, The Witch and the Wardrobe"

Rhan o'r ffilm: Pennod 7 (33:32 - 37:55)

Dangos y darn ble mae Peter a Susan yn dweud wrth y Professor bod Lucy wedi honni ei bod wedi bod i Narnia, a'r Professor yn dweud fod yna dri phosibiliad – naill ai ei bod hi'n dweud celwyddau, neu'n wallgof, neu'n dweud y gwir.

Wedyn dangoswch ddyfyniad C.S. Lewis am "Liar, Lunatic, Lord". Eglurwch fod gennym ninnau dri phosibiliad i'w hystyried am honiadau Iesu Grist amdano ei hun:

I am trying here to prevent anyone saying the really foolish thing that people often say about Him: "I'm ready to accept Jesus as a great moral teacher, but I don't accept His claim to be God." That is the one thing we must not say. A man who said the sort of things Jesus said would not be a great moral teacher. He would either be a lunatic - on a level with the man who says he is a poached egg - or else he would be the Devil of Hell. You must make your choice. Either this man was, and is, the Son of God: or else a madman or something worse. You can shut Him up for a fool, you can spit at Him and kill Him as a demon; or you can fall at His feet and call Him Lord and God. But let us not come with any patronizing nonsense about His

being a great human teacher. He has not left that open to us. He did not intend to.

C.S. Lewis.

5. Gêm – Dau wir, un gau

(10 munud)

Chwarae'r gêm:

Rhowch ddarn o bapur a phin ysgrifennu i bob un o'r bobl ifanc.

Gofynnwch iddynt ysgrifennu tair ffaith amdany'n nhw eu hunain, ond mae'n rhaid i un ffaith fod yn gelwydd a'r ddwy arall yn wir.

Gofynnwch i bob un o'r bobl ifanc yn eu tro i ddarllen y tair ffaith amdany'n nhw eu hunain.

Yna rhaid i bawb arall geisio dyfalu pa ffaith nad yw'n wir.

Does dim rhaid cadw sgôr, ond mae modd gwneud hynny os dymunwch.

Pwynt y gêm: Cyflwyno'r posibiliad bod Iesu Grist yn dweud celwyddau amdano ei hun.

6. CELWYDDGI (“LIAR”)

(5 munud)

- Y posibiliad cyntaf am honiadau Iesu Grist amdano'i hun yw, yn syml, ei fod yn dweud celwyddau'n fwriadol er mwyn twyllo pobl.
- Roedd Iesu Grist yn honni ei fod yn Dduw, ac os oes rhywun yn honni eu bod yn Dduw, mae'n rhaid gofyn o ddfiri a ydynt yn dweud celwydd.
- Ond fel y dywedodd y Professor, er mwyn archwilio'r posibiliad hwn, mae'n rhaid ystyried a yw'r person yn arfer dweud celwyddau, sef pa mor ddibynadwy a gonest ydyw?

Darllen: Marc 14: 27-31; Marc 8:31-33, 10:32-34.

C2: Beth mae Iesu'n ei ragfynegi yma?

C3: A oedd yn dweud y gwir ai peidio?

- Yn y darlleniadau, gwelwn fod Iesu'n rhagfynegi gwadiad Pedr, ac wedyn ei farwolaeth a'i

atgyfodiad ef ei hun.

- Pan ddaw'r pethau'n wir yn nes ymlaen yn yr efengyl, mae'n cadarnhau bod Iesu'n dweud y gwir.
- Yr atgyfodiad yw cadarnhad Duw fod Iesu'n dweud y gwir – os oedd o'n dweud y gwir am rywbeth mor fawr â hyn, gallwn ymddiried yn y pethau eraill a ddywedodd amdano'i hun.
- Os ydych yn credu bod yr atgyfodiad wedi digwydd, mae hyn yn golygu nad celwyddgi yw Iesu Grist.

7. Gêm – Dodgeball

8. GWALLGOFDDYN

(“LUNATIC”)

(5 munud)

- Dangoswch y pedwar llun o Sung-yung Moon, Malcolm Applewhite, Matayoshi Jesus a Thomas Harrison Provenza; a gofynnwch i'r ieuentid beth maent yn meddwl sy'n gyffredin rhwng y pedwar person yma.
- Yr ateb yw eu bod nhw i gyd wedi honni eu bod nhw'n Dduw. Efallai y byddwch am egluro tipyn bach am bob un ohonynt

Sung-yung Moon – Sefydlodd yr Unification Church, a honni mai fo yw ailddyfodiad Crist ond nid Iesu ei hun.

Thomas Harrsion Provenza – Llofrudd â chyflwr meddwl ansefydlog, a gymharodd ei ddiennyddiad â marwolaeth Iesu.

Marshall Applewhite – Fe wnaeth ef a'i grŵp ladd eu hunain er mwyn cwrdd â llong ofod a 'ddeuai' y tu ôl i gomed Hale-bopp

Matayoshi Jesus – Sefydlodd y World Economic Community Party ar sail ei honiad ei fod yn Dduw a'r Crist.

- Mae'n debyg bod rhai o'r bobl yma wedi dweud celwyddau'n fwriadol er mwyn cyfiawnhau'r hyn roedden nhw'n ei wneud.

- Mae'n debyg mai cyflwr meddwl ansefydlog oedd y tu ôl i honiadau rhai eraill.
- Taswn i'n honni fy mod yn Dduw, mae'n debyg y byddai pobl yn meddwl fy mod yn wallgof.
- Yr ail bosibiliad am honiadau Iesu amdano'i hun yw ei fod yn wallgof - sef ei fod wir yn credu ei fod yn Dduw, ac yntau heb wybod ei fod yn dweud celwyddau. Hynny yw, ei fod yn "deluded".

Unwaith eto mae'n rhaid ystyried y posibilid yma o ddifri.

- Os cofiwch chi, fe ddywedodd y Professor ei bod yn amlwg nad oedd Lucy yn wallgof oherwydd y ffordd yr oedd hi'n siarad ac ymddwyn.
- Mae'n rhaid felly i ninnau bwysu a mesur bywyd a geiriau Iesu Grist er mwyn penderfynu a oedd yn wallgof ai peidio.

9. Clip Ffilm - Gŵr y Gwyrthiau

Rhan o'r ffilm: Pennod 14, awr i mewn i'r ffilm lle mae Iesu yng Ngardd Gethsemane.

Darllen: Marc 14:32-36.

C4: Pam oedd Iesu Grist yn drist?

C5: A oedd yna reswm dros y tristwch yma?

- Y mae Iesu'n ymwybodol iawn o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd iddo.
- Nid "paranoia" na "delusions of grandeur" oedd hyn.
- Os edrychwch ar bobl eraill sydd wedi honni eu bod nhw'n Dduw, sydd â chyflwr meddwl ansefydlog, fe welwch eu bod yn fwy na hapus i farw, a'u bod hyd yn oed yn edrych ymlaen at hynny.
- Ond nid fel hyn oedd Iesu - doedd o wir ddim eisiau mynd i'r groes, ac roedd yn gofyn i'w Dad roi ffordd iddo ei osgoi.
- Ymddygiad rhywun call yw hwn.

- Dim ond un enghraifft yw hon. Felly, mae'n rhaid i chi archwilio bywyd Iesu yn ôl yr efenngylau, er mwyn penderfynu a oedd yn wallgof ai peidio.

9. ARGLWYDD ("LORD")

- Felly os nad oedd Iesu'n dweud celwyddau, ac os nad oedd yn wallgof, yr unig gasgliad rhesymol yw ei fod yn dweud y gwir amdano'i hun.
- Mae hynny'n golygu mai ef yw'r Arglwydd a fu farw drosom, ac sy'n ein galw i edifarhau a'i ddilyn.
- Felly os ydych chi hynny wedi dod i'r casgliad hwn, mae'n rhaid i chi ystyried o ddifri: Beth yw'ch ymateb chi i'r ffaith yma?

10. Myfyrdod/amser ymateb

Efallai y byddai'n syniad i'r ieuenctid gael amser tawel i weddio/ ystyried yr hyn maen nhw wedi ei glywed. Efallai yr hoffech chi chwarae cân yn y cefndir. Efallai y gallwch chi roi cyfle iddynt siarad ag arweinydd, neu ysgrifennu eu hymateb ar ddarn o bapur. Gallwch awgrymu iddynt ddarllen llyfrau fel:

- "The Case for Christ" (Lee Strobel),
- "Who moved the Stone?" (Frank Morison) neu
- "The Reason for God" (Tim Keller).

Dim ond awgrymiadau'r yw'r rhain - mae yna lawer o lyfrau sy'n ystyried y dystiolaeth i'r atgyfodiad.

Cloi'r cyfarfod gyda gweddi.

5. Tomos: Mae Iesu wedi atgyfodi

Prif bwyntiau:

Roedd Thomas yn un o'r 12 disgybl a oedd wedi gweld y pethau rhyfeddol yr oedd Iesu Grist yn gallu eu gwneud, yn ogystal â'i glywed yn rhagfynegi ei farwolaeth a'i atgyfodiad.

Ar ôl atgyfodiad Iesu, nid oedd Thomas yn bresennol pan welodd Pedr ac eraill y bedd gwag, na phan ymddangosodd Iesu i'r disgyblion.

Am nad oedd wedi gweld Iesu nac wedi ei gyffwrdd, doedd Thomas ddim yn fodlon credu ei fod wir wedi atgyfodi - efallai ei fod yn meddwl mai ysbryd oedd o.

Wedi iddo weld yr Iesu a'i gyffwrdd, mae Thomas yn dod i ffydd ynddo ac yn dweud "Fy Arglwydd a'm Duw". Wrth ei gyffwrdd, mae'n gweld fod gan Iesu gorff go iawn, ac nad ysbryd mohono.

Mae Iesu'n dweud wrth Thomas ei fod ef wedi credu am ei fod wedi ei weld, ond bod modd i rai sydd heb ei weld gael yr un ffydd.

Prif rannau o'r Beibl:

Ioan 20: 24-31, 1 Pedr 1:8, 2 Corinthiaid 5:7, Hebreaid 1:11.

Adnodau Allweddol: Ioan 20:29, Hebreaid 1:11.

Cymhwysiad: Hyd yn oed gyda chymaint o dystiolaeth, mae'n dal angen i ninnau gymryd cam ffydd, a chredu a rhoi ein bywydau i Iesu. Fe ddywedodd Iesu ein bod ninnau (sydd ddim wedi ei weld na'i gyffwrdd) yn gallu cael yr un ffydd ynddo â Thomas (sydd wedi ei weld).

Fel Cristnogion, gallwn ninnau amau ar adegau, ac mae Thomas yn galondid mawr i ni. Ond hefyd, daw'r pwynt lle mae'n rhaid i ninnau gael ffydd.

Bydd angen:

Gêm 1:

- 2-4 ffon (gallech ddefnyddio rhai hoci plastig neu wneud rhai eich hunain trwy rollo papurau newydd i fyny a rhoi tâp gludiog drostynt),
- Pêl tenis,
- 4 côn i wneud dwy gôl, neu 4 cadair,

- O leiaf 8-10 o bobl ifanc,
- Ystafell go fawr.

Gêm 2:

- 3-6 pêl blastig,
- Ystafell go fawr,
- O leiaf 6-8 o bobl ifanc,
- 4-6 côn,
- Chwiban,
- Tâp masgio neu sialc.

Gêm 3:

- 1-2 rôl o bapur toiled i bob tîm,

Rhif 5:

- Darn o darpolin neu hen gynfas,
- Bocs o 6 wŷ,
- Bocs o greision yd,
- Sgarff i'w defnyddio fel mwgwd.

Rhif 7:

- 2-4 bwced o sothach! (cymysgedd o bethau megis; ffa pob, jeli, pwddin reis, cwstard, sbageti, deunydd lliwio bwyd. Gofalwch ei fod yn ffres - dim ond edrych yn afiach ddylai wneud, yn hytrach na bod yn beryglus i'r ieuenctid!)
- 2 - 4 o negeseuon wedi'u hysgrifennu gyda marciwr parhaol ar ryw fath o liain plastig (awgrymir rhai o'r adnodau uchod),
- Weips dwylo,
- Tywelion

Rhif 9:

- Cân: "Believe" gan "Third Day" ar eu Albwm "Time" (gweler Rhif 9)

1. Gêm: Hoci dan dô

(5 munud)

Chwarae'r gêm:

Yr ystafell yw'r cae hoci felly gosodwch gôl bob pen i'r ystafell (gan ddefnyddio'r conau).

Rhannwch y bobl ifanc yn ddau dîm cyfartal a dwedwch wrthynt am eistedd mewn rhesi yn wynebu ei gilydd efo digon o le rhyngddynt ar ddwy ochr y “maes chwarae”. Rhowch rif i bob un o’r bobl ifanc gan bwysleisio wrthynt fod angen ei gofio.

Gosodwch y 2-4 ffon yng nghanol yr ystafell.

Pan fyddwch yn galw dau rif, er enghraifft 2 a 7, bydd y ddau berson ifanc o bob tîm sydd â’r rhifau yma yn codi ar eu traed, rhedeg i’r canol, codi ffon a thrio sgorio gôl.

Cyn gynted a bydd un ohonynt yn sgorio, y mae’r pedwar person ifanc yn eistedd i lawr.

Yna galwch ddau rif arall. Parhewch i wneud hyn nes y bydd pawb wedi cael tro.

Yr enillwyr fydd y tîm â’r mwyaf o goliau.

2. “Dodgeball”

(5 munud)

Chwarae’r gêm:

Rhannwch y bobl ifanc yn ddau dîm (neu fwy). Gosodwch un tîm i sefyll mewn rhes yn erbyn un wal, a’r llall yn sefyll ar hyd wal yr ochr arall i’r ystafell yn eu hwynebu.

Gwnewch linell ynghanol yr ystafell gyda thâp masgio neu sialc rhwng y ddau dîm – does neb yn cael croesi’r llinell yma!

Gosodwch y peli ar hyd y llinell.

Rhaid i aelodau’r ddau dîm gyffwrdd â’r wal â’u dwylo a disgwyl i chi ddweud eu bod yn cael cychwyn. (Mi fyddai chwiban yn handi iawn yn hyn o beth!)

Wrth i chi gyhoeddi dechrau’r ornest, mae’r bobl ifanc yn codi pêl a’i thaflu at aelodau’r tîm arall.

Os caiff rhywun ei tharo/daro o dan y pen, mi fydd y person hwnnw allan o’r gêm.

Os bydd y person yn dal y bêl, bydd y taflwr (o’r tîm arall) allan a chaiff rhywun arall o dîm yr un ddaliodd y bêl ddod yn ôl i mewn i’r gêm.

Y tîm fydd yn llwyddo i gael pawb o’r tîm arall allan fydd yn ennill.

Pwrpas y gêm: Cael hwyl.

3. Gêm: Ras mymi

(5 munud)

Chwarae’r gêm:

Gosodwch y bobl ifanc mewn timau.

Rhowch 1–2 rôl o bapur toiled i bob tîm.

Maent wedyn yn dewis un aelod o’r tîm i fod yn “mymi”.

Caiff bob tîm hyd at 5 munud i lapio’r papur o amgylch eu ‘mymi’.

Y tîm sy’n gwneud hyn gyflymaf sy’n ennill.

Pwrpas y gêm: Cefndir y stori heddiw yw

Atgyfodiad Iesu, o Efengyl Ioan. Byddwn yn

edrych ar ymateb un o’i ddisgyblion, Thomas, i’r digwyddiad yma.

4. Cyflwyniad:

- Wedi i Mair Magdalen a’r gwagedd eraill weld bod bedd Iesu’n wag, maent yn rhuthro i ddweud wrth y disgyblion.
- Mae Pedr ac un disgybl arall yn rhedeg at y bedd i ganfod bod y gwagedd yn dweud y gwir.
- Wrth weld y bedd gwag maent yn credu.
- Y mae Iesu’n ymddangos i Mair Magdalen ac wedyn i’r disgyblion.
- Mae’n dangos ei ddwylo a’i ochr iddynt.
- Yn amlwg, mae’r disgyblion yn falch o weld fod Iesu wedi’i atgyfodi oddi wrth y meirw.

5. Gweithgaredd: Bod yn ddewr

(5-10 munud)

Chwarae’r gêm:

Cyn i’r bobl ifanc gyrraedd, gwnewch yn siŵr fod y bocs creision yd wedi ei guddio ac allan o’u golwg. Taenwch y tarpolin, a dewiswch ddau wirfoddolwr (bydd o gymorth i’r eglureb os ydyn nhw’n ffrindiau da ac yn ymddiried yn ei gilydd).

Gosodwch yr wyau ar y tarpolin, fel rhyw fath o gwrs rhwystr.

Bydd un ffrind yn rhoi cyfarwyddiadau o ben arall y tarpolin, i dywys y ffrind arall trwy'r cwrs rhwyrstr, gan osgoi'r wyau.

(Gofalwch eich bod yn pwysleisio bod y ffrindiau'n ymddiried yn ei gilydd.)

Anfonwch un o'r ddau wirfoddolwr i ystafell arall i wisgo'r mwgwd.

Tra byddan nhw allan, symudwch yr wyau, a gosodwch bentyrarau o greision ŷd yn eu lle. Yna dywedwch wrth yr un sy'n rhoi'r cyfarwyddiadau i arwain ei ffrind i gamu drwy'r creision ŷd, gan wneud iddo gredu ei fod yn sefyll ar yr wyau.

Gofynnwch i weddill yr ieuencid i ymuno yn yr hwyl trwy ymateb pan fydd yr un gyda'r mwgwd yn cerdded dros yr "wyau".

Yna caiff ddod yn ôl i sefyll wrth ymyl y tarpolin, a thynnu ei fwgwd.

Pwrpas y gêm: Mae hon yn weithgaredd dda i gyflwyno'r thema o fentro allan mewn ffydd.

C1: A fu adeg yn eich bywyd pan oedd rhaid i chi gamu allan mewn ffydd?

6. Darllen: Ioan 20: 34-41

C2: Pam nad oedd Thomas yn fodlon credu fod Iesu wedi atgyfodi?

- Nid oedd Thomas yn bresennol pan ymddangosodd Iesu i'r disgyblion.
- Felly, am nad oedd wedi ei weld yn y cnawd, nid oedd yn fodlon credu. Efallai ei fod yn credu mai Ysbryd ydoedd, yn hytrach na bod gan Iesu gorff go iawn.
- Y mae llawer o bobl yn teimlo fel hyn ynghylch atgyfodiad Iesu heddiw. Am nad ydyn nhw'n gweld y dystiolaeth, ac am na allant brofi'r atgyfodiad mewn ffordd wyddonol, dydyn nhw ddim yn fodlon credu.
- Dydyn nhw ddim yn fodlon credu'r hyn na ellir ei weld.

C3: A ydych chi'n cael anhawster i gredu yn yr hyn na fedrwch ei weld na'i gyffwrdd?

C4: Beth yw ymateb Thomas pan ddaw Iesu?

- Wrth gyffwrdd â Iesu, mae Thomas yn gweld yn glir nad ysbryd ydyw ond rhywun sydd â chorff go iawn, sydd wir yn fyw.
- O ganlyniad i hyn, mae Thomas yn rhoi ei ffydd yn Iesu gan ddweud, "Fy Arglwydd a'm Duw".

7. Gêm: Ras gyfnewid neges (10 munud)

*Adnodau: Hebraeid 11:1, 2 Corinthiaid 5:7
neu 1 Pedr 1:8.*

Chwarae'r gêm:

Rhannwch y bobl ifanc yn 2 dîm neu fwy.

Gofynnwch i'r timau sefyll mewn rhesi ar gyfer ras gyfnewid.

Gosodwch y bwcedi efo'r sothach (a darnau'r adnod) ar ben arall yr ystafell, un i bob tîm.

Ar ganiad y chwiban mae'r bobl ifanc yn rhedeg fesul un at y bwced a thynnu darn o'r neges allan o'r sothach a rhedeg yn ôl. Mae hyn yn parhau nes y bydd y tîm wedi casglu'r darnau i gyd.

Yna, mae'n rhaid i'r timau rhoi'r neges at ei gilydd.

Pwy bynnag sydd yn gwneud hyn gyntaf fydd yn ennill.

Efallai y byddai'n syniad cael cystadleuaeth fach wedyn i ddysgu'r adnod, neu gallwch roi'r adnod iddynt ar ddarn o bapur. Y naill ffordd neu'r llall, mae'r adnodau'n crynhoi neges y sesiwn yn dda.

8. Prif sgwrs (10 munud)

- Mae'r Atgyfodiad yn ganolog i'r ffydd Gristnogol.
 - Heb yr atgyfodiad ni fyddai unrhyw sail i Gristnogaeth.
 - Yn ein byd modern a gwyddonol, mae'r syniad bod rhywun yn codi oddi wrth y meirw yn un chwerthinllyd i lawer o bobl.
 - Ond os ydych am gymryd Iesu o ddifri mae'n bwysig eich bod yn cymryd ei atgyfodiad o ddifri.
 - Yn y sesiwn ddiwethaf buom yn edrych ar y

dystiolaeth, er mwyn gweld a oedd Iesu Grist yn dweud y gwir amdano'i hun. Roeddem yn annog ein gilydd i ystyried y dystiolaeth drosom ein hunain.

- Ond hyd yn oed os ydych chi wedi gweld bod y dystiolaeth am yr atgyfodiad yn gryf iawn, mae'n dal yn bosibl i chi beidio credu.
- Os nad ydych chi'n fodlon credu, fydd yna fyth ddigon o dystiolaeth i chi.
- Nid yw dystiolaeth ar ei phen ei hun yn ddigonol.
- Daw pwynt pan fydd rhaid i chi gredu yn Iesu, fel y gwnaeth Thomas.
- Y mae'r 'credu' yma'n golygu mwy na dim ond gwybod ei fod yn fyw – mae'n golygu 'ymddiried ynddo'.
- Mae Iesu'n dweud y gallwn ni gael yr un ffydd ynddo â'r rhai oedd wedi ei weld.

Os ydych am ymddiried yn Iesu dyma y mae angen i chi ei wneud:

Cyfaddef y pethau drwg yr ydych wedi eu gwneud yn erbyn Duw.

Credu bod Duw yn maddau i chi oherwydd marwolaeth ac atgyfodiad Iesu.

Newid. Gofyn i'r Ysbryd Glân eich helpu i newid, i fod yn fwy tebyg i Iesu Grist bob dydd, a byw mewn ffordd sy'n plesio Duw.

- Pan ddywedodd Thomas, "Fy Arglwydd a'm Duw" roedd yn cydnabod mai Iesu fyddai wrth y llyw yn ei fywyd o hynny ymlaen, ac nid ef ei hun.
- Y mae'r un peth yn wir i ninnau – wrth ymddiried yn Iesu, rydym yn rhoi ein bywydau iddo, gan gydnabod mai fe sydd wrth y llyw o hyn ymlaen.
- Ef sy'n rheoli ein meddyliau, gweithredoedd, arian, amser a breuddwydion ar gyfer y dyfodol.
- Nid rhywbeth ysgafn yw gwneud hyn – mae'n rhaid cyfri'r gost o ddifri cyn gwneud y penderfyniad yma.
- Penderfyniad pwysicaf eich bywyd yw hwn.
- Os ydym yn Gristnogion sy'n amau ein ffydd,

mae Thomas yn galonddid mawr i ni i gyd.

- Does 'na ddim byd o'i le efo cael amheuaeth. Mae Duw'n ddigon mawr i ddelio efo'n cwestiynau.
- Mae'n iawn i Gristnogion gwestiynu pethau – nid robotiaid ydym ni!
- Ond daw pwynt lle bydd rhaid i chi benderfynu "Credu'r hyn yr ydych yn ei gredu ac amau'r hyn yr ydych yn ei amau".
- Does dim rhaid i chi fynd trwy hyn ar eich pen eich hun – gofynnwch i Dduw roi mwy o ffydd i chi, neu rhannwch eich amheuaeth efo Cristion profiadol.

9. Myfyrdod / Amser ymateb

Cân: "Believe" gan "Third Day" ar eu Albwm "Time". Os nad yw'r albwm hwn gennych, yn anffodus nid yw ar gael ar iTunes, ond mae yna fideo da ar 'YouTube'. Teipwch "Third Day – Believe", a dewiswch yr un sy'n dweud "Third Day Believe (lyrics on the side)".

Neu os oes gennych gân arall ar destun ffydd, gallwch ddefnyddio honno.

Cloi'r cyfarfod gyda gweddi.